

Elin Jones AC
Llywydd

6 Rhagfyr 2018

Annwyl *Elin*

Gwybodaeth ychwanegol yn dilyn y ddadl ar adroddiad blynyddol y Comisiwn ar ei Gynllun Ieithoedd Swydddogol

Ysgrifennaf atoch yn rhinwedd fy rôl fel Comisiynydd y Cynulliad â chyfrifoldeb am ieithoedd swydddogol. Yn ystod y ddadl, nododd Adam Price AC, fy rhagflaenydd, y byddai'n ysgrifennu at yr Aelodau i ymhelaethu ar rai pwyntiau ac i ymateb i gwestiynau nad oedd modd eu cyrraedd ar y pryd oherwydd prinder amser. Mae'n braf felly bod mewn sefyllfa i ysgrifennu atoch gyda'r wybodaeth berthnasol.

Amseru cyhoeddiad yr adroddiad blynyddol a'r ddadl

Yn dilyn sylwadau Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn ystod y ddadl, rwyf wedi cael cyfle i ystyried amseriad cyhoeddi'r adroddiad blynyddol a chynnal dadl ar ei gynnwys o safbwynt y cyfleoedd ar gyfer craffu.

Cydymdeimlaf â safbwynt y Pwyllgor ei fod yn awyddus i ystyried yr adroddiad blynyddol mewn da bryd ymlaen llaw i gynnal dadl ar lawr y Senedd, fel y gall benderfynu a yw'n dymuno craffu'n fanwl ar unrhyw agwedd o'r adroddiad a



bwydo canlyniad unrhyw graffu i'r ddadl yn y Cyfarfod Llawn. Hoffwn danlinellu fy mod yn croesawu unrhyw graffu o du'r Pwyllgor a'm bod yn awyddus i wneud yr hyn a allaf i hwyluso craffu o'r fath.

Oherwydd ein trefniadau gwaith, credaf y byddai'n amharu'n ormodol ar drefniadaeth ein gwaith ar hyn o bryd inni wyro oddi ar y patrwm o gyhoeddi'r adroddiad a chynnal dadl *cyn* toriad yr haf ym mhob blwyddyn seneddol. Fel nodwyd eisoes yn ystod y ddadl, byddai'n anodd cyhoeddi'r adroddiad llawer cynt nag a wnaed eleni. Deallaf mai'r trefniant gydag adroddiad blynyddol a chyfrifon y Comisiwn yw eu cyhoeddi cyn toriad yr haf, a bod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn craffu wedi'r toriad yn yr hydref fel mater o drefn. Buaswn yn gobeithio bod y model hwn yn rhywbeth y gallai'r Pwyllgor Diwylliant hefyd ystyried ei fabwysiadu ac y gellid cynnal sesiwn craffu yn yr hydref ar adroddiad blynyddol y Cynllun Ieithoedd Swyddogol fel mater o drefn yn yr un modd gyda chytundeb y Pwyllgor.

Wedi dweud hynny, mewn ymgais i fod mor ymatebol a hyblyg â phosibl i'r Pwyllgor, rwyf wedi gofyn i swyddogion gadw sylwadau'r Pwyllgor mewn cof wrth gynllunio eu hamserlenni gwaith ar gyfer y cyfnod adrodd 2018/19 a diweddarau swyddogion y Pwyllgor yn rheolaidd ar yr amserlen ar gyfer cyhoeddi a chynnal dadl. Ar ôl adlewyrchu ar y trefniadau ar gyfer eleni yn ogystal, credaf y gallem ystyried rhannu copi heb ei ddylunio o'r adroddiad blynyddol gyda'r pwyllgor rai wythnosau ynghynt fel opsiwn arall os yw'r Pwyllgor yn dymuno hynny.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EQIA)

Mae'r asesiad yn ddogfen fyw, a byddwn yn ei diweddarau yn dilyn rhoi'r system recriwtio newydd ar waith.

Dogfennau pwyllgor a dogfennau a osodwyd

Cyfeiriwyd yn ystod y ddadl at nifer y dogfennau a gyflwynir i bwyllgorau'r Cynulliad a'r dogfennau a osodwyd yn uniaith Saesneg a'r camau y mae'r Comisiwn yn eu cymryd i fynd i'r afael â hynny.



Yn unol â'r safonau gwasanaeth ar gyfer Aelodau Cynulliad a'u staff cymorth yn y Cynllun, rydym yn ymrwymo i'w galluogi i ymwneud â busnes y Cynulliad yn eu dewis iaith swyddogol. Mae'r Cynllun ei hun yn nodi yn glir y bydd y pwyllgorau, wrth gomisiynu dogfennau (adroddiadau, ymatebion i ymgynghoriadau ac ati) gan drydydd partïon ar gyfer trafodion, yn gofyn am fersiynau dwyieithog. Mae'r Cynllun hefyd yn nodi ein bod yn disgwyl i gyrff sy'n destun unrhyw ofynion statudol o ran darpariaeth ddwyieithog, boed hynny ar ffurf Safonau'r Gymraeg neu Gynllun Iaith, gydymffurfio â'r gofynion hynny.

Mae'n destun pryder felly bod nifer y dogfennau a gyflwynir i bwyllgorau a'r dogfennau a osodir yn y Swyddfa Gyflwyno gan Lywodraeth Cymru ymhell iawn o'r nod y dylai'r holl ddogfennau fod ar gael yn y Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg. Credaf fod gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb neilltuol o ran gallu Aelodau'r Cynulliad a phobl Cymru i ymgysylltu â thrafodion eu deddfwrfa yn eu dewis iaith oherwydd y berthynas unigryw rhwng gwaith y Senedd a'r Llywodraeth.

Yn sgil cyhoeddi'r adroddiad felly, a'r canfyddiadau sy'n ymwneud yn benodol â Llywodraeth Cymru, mae swyddogion wedi codi'r mater gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a chodwyd y mater mewn cyfarfod a gafodd ei gynnull gyda swyddogion Comisiynydd y Gymraeg wedi cyhoeddi'r adroddiad. Rwyf hefyd wedi ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i dynnu sylw'r Pwyllgor yn ffurfiol at y mater hwn ac i ofyn i'r Pwyllgor Busnes ystyried sut y gellir mynd i'r afael â'r broblem hon. Yn benodol, rwy'n gobeithio y bydd modd i'r Pwyllgor roi sylw i ddigonolrwydd ac eglurder (i) gofynion y Rheolau Sefydlog perthnasol a (ii) y gweithdrefnau sydd ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion a'r dyletswyddau hynny. Y gobaith o wneud hynny yw dechrau trafodaeth adeiladol gyda'r Pwyllgor Busnes a'r Llywodraeth fel y gallwn geisio dod o hyd i ffyrdd o wella'r ddarpariaeth i Aelodau ac i bobl Cymru yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Byddwn hefyd yn parhau i ystyried pa gamau pellach y gellid eu cymryd i gadarnhau'r disgwyliadau ac i gryfhau prosesau drwy gydweithio â Chomisiynydd y Gymraeg ymysg eraill.

Nifer y cwynion

Rwy'n gefnogol mewn egwyddor i'r Comisiwn adrodd ar union nifer y cwynion a dderbyniwyd mewn perthynas ag ieithoedd swyddogol a'u natur yn yr adroddiad



blynyddol yn ystod blynyddoedd i ddod. Fe wneir hynny eisoes yn achos yr Adroddiad Blynyddol ar Amrywiaeth a Chynhwysiant, er enghraifft. Credaf y byddai gwneud hynny yn achos yr Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Ieithoedd Swyddogol yn esblygiad naturiol o'n hymrwymiad i gynnwys rhagor o ddata meintiol ar berfformiad at y dyfodol. Bydd swyddogion yn edrych ar y posibilrwydd o ychwanegu'r wybodaeth hon wrth baratoi'r adroddiad blynyddol ar gyfer 2018/19 fel rhan o gywain data meintiol ac adrodd arno yn gyffredinol.

Darlledu trafodion ac isdeitlau

Mae'n hanfodol bwysig fod pobl Cymru yn gallu dilyn trafodion eu deddfwrfa yn eu dewis iaith. Yn achos y sylwadau am y ddwy iaith yn cael eu darlledu ar yr un pryd wrth i'r llif sain gair am air a'r cyfieithiad i'r Saesneg ohono a ddarparwn gael ei ddefnyddio gan ddarllledwyr, gallaf gadarnhau fy mod wedi gohebu â Chyfarwyddwr BBC Cymru, gan ofyn iddo ystyried y mater hwnnw ynghyd ag unrhyw ystyriaeth y mae'r BBC wedi'i roi i'r posibilrwydd o is-deitlo cyfraniadau o lawr y Senedd ar eu rhaglenni.

Gofynnodd Suzy Davies hefyd am y trefniadau yn fewnol wrth ddarlledu cyfraniadau o lawr y Senedd ar y sgriniau teledu ar ystâd y Cynulliad sydd o fewn rheolaeth Comisiwn y Cynulliad. Rwy'n ddiolchgar am yr adborth hwnnw ac rwyf wedi gofyn i swyddogion sicrhau bod y llif y mae'r Comisiwn yn ei ddarlledu ar y sgriniau teledu ledled yr ystâd yn adlewyrchu'r egwyddor o gyfartaledd rhwng ein dwy iaith swyddogol, gan gynnwys edrych ar y posibilrwydd o ddefnyddio isdeitlau.

Cwestiynau Ysgrifenedig

Nid yw'n bosibl i Gomisiwn y Cynulliad fonitro ymatebion Llywodraeth Cymru i gwestiynau ysgrifenedig. Yn unol â chonfensiwn, bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb i gwestiynau ysgrifenedig yn yr iaith y'u cyflwynwyd. Gydag Aelodau Cynulliad sy'n cyflwyno cwestiwn ysgrifenedig yn Gymraeg yn derbyn ymateb dwyieithog. Er hynny, rwyf wedi gofyn i swyddogion gadw'r mater hwn mewn cof fel rhan o'u ymwneud rheolaidd â swyddogion y Llywodraeth. Wrth gasglu'r ystadegau ar gyfer yr adroddiad blynyddol, daeth yn amlwg nad oes llawer o fusnes swyddogol yn cael ei gyflwyno naill ai yn Gymraeg, neu yn ddwyieithog ar



hyn o bryd. O'n safbwynt ni fel Comisiwn y Cynulliad, er mwyn sicrhau bod Aelodau Cynulliad a'u staff cymorth yn hyderus i gyflwyno busnes yn Gymraeg neu yn ddwyieithog, lluniwyd sesiwn hyfforddi oedd yn cynnwys cyflwyniad i system newydd y Swyddfa Gyflwyno ac elfennau o hyfforddiant gloywi iaith. Caiff y sesiynau eu darparu yn ôl y galw, a chafwyd canmoliaeth gan y sawl sydd wedi derbyn yr hyfforddiant hyd yma.

Aelodau Cynulliad a'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol.

Nid yw'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol yn cwmpasu Aelodau'n rhyngweithio â'u hetholwyr ar lefel un-i-un. Fodd bynnag, mae'n rhaid i unrhyw ddeunyddiau a ariannir gan y Comisiwn neu'r Bwrdd Taliadau gael eu cynhyrchu'n ddwyieithog. Mae'r Tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau a'r Tîm Ieithoedd Swyddogol ar y cyd wedi datblygu tudalennau newydd ar Fewnrwyd yr Aelodau o dan y teitl Gweithio'n Ddwyieithog. Diben y gwaith oedd creu man canolog ar gyfer gwybodaeth am ein ieithoedd swyddogol, a'r gefnogaeth sydd ar gael. Mae'r adran ar gyngor a chefnogaeth yn benodol yn cynnwys manylion sut i drefnu gwasanaeth cyfieithu testun neu gyfieithu ar y pryd, geirfa a chyngor ar gyfer paratoi deunydd dwyieithog, a chwestiynau cyffredin. Byddwn yn adolygu'r tudalennau o dro i dro ac yn sicrhau ein bod yn diweddarau'r darnau perthnasol gydag enghreifftiau o arferion gorau ac unrhyw adnoddau newydd sydd ar gael, a bydd nifer yr ymwelwyr i'r tudalennau hynny yn cael ei ystyried fel rhan o'r gwaith adolygu hwnnw

Sgiliau Iaith

Fel rhan o'n gwaith ar Thema 3 yn y Cynllun Ieithoedd Swyddogol ar gynllunio ieithyddol, bydd y Tîm Ieithoedd Swyddogol yn gweithio gyda gwasanaethau unigol i adolygu a gwella cynlluniau iaith. Fel rhan o'r gwaith bydd y tîm yn cynorthwyo gyda'r gwaith o bennu sgiliau iaith ar gyfer pob swydd o fewn y gwasanaethau. Wedi hynny, bydd y gwasanaethau yn gofyn i bob aelod o staff wneud hunan asesiad o'u sgiliau iaith yn unol â'r matrices sgiliau a gyflwynwyd fel rhan o'n gwaith ar recriwtio dros yr haf. Rydym yn parhau i chwilio am ffyrdd o gadw'r wybodaeth ar fformat adroddiadwy. Ein gobaith yn y pen draw yw y bydd modd i unigolion ddiweddarau'r wybodaeth pan fydd eu lefel sgiliau iaith yn newid.



Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth bellach hon yn ddefnyddiol.

Yn gywir,



Siân Gwenllïan AC

Y Comisiynydd â chyfrifoldeb dros ieithoedd swyddogol a darparu a thrawsnewid gwasanaethau i'r Aelodau

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

